# ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **COMMITTEE:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO– PWYLLGOR ARBENNIG** |
| **DATE:** | **09 FEBRUARY 2015** |
| **TITLE OF REPORT:** | **RÔL Y SWYDDOG ATAL TWYLL CORFFORAETHOL** |
| **PURPOSE OF REPORT:** | **ER GWYBODAETH** |
| **REPORT BY:** | **SWYDDOG ATAL TWYLL CORFFORAETHOL** |
| **ACTION:** | **DIM** |

## 1. BACKGROUND

1.1 Crewyd y swydd Atal Twyll Corfforaethol (SATC) o ganlyniad i drosglwyddo cyfrifoldebau am ymchwilio i dwyll Budd-dal Tai (BT) i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn dilyn creu un Gwasanaeth Ymchwilio i Dwyll (SFIS). Roedd y ddau ymchwilydd BT yn yr awdurdod i fod i drosglwyddo i'r SFIS ar 1 Tachwedd 2014. Pe bai hynny wedi digwydd, ni fyddai gan yr awdurdod unrhyw swyddogion atal twyll profiadol.

1.2 Roedd DWP ac SFIS wedi penderfynu na fyddai eu hymchwilwyr yn ymchwilio i dwyll yn derbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), sef y fersiwn newydd o Fudd-dal Treth Gyngor oherwydd nad yw'r Llywodraeth yn ystyried for CTRS yn fudd-dal. Roedd y penderfyniad hwn yn golygu na fyddai neb ar ôl yn yr awdurdod i ymchwilio i dwyll CTRS ac oherwydd bod y mwyafrif llethol o hawlwyr BT hefyd yn derbyn CTRS, gallai hynny wedi golygu colled sylweddol i'r Awdurdod.

1.3 Wrth ymchwilio ymhellach i risgiau twyll posib, gwelwyd bod potensial i ymchwilio i fathau eraill o dwyll sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor megis disgownt i bobl sengl a thwyll trethi cenedlaethol annomestig. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi dweud bod twyll tenantiaethau tai cymdeithasol yn faes risg uchel ac roedd teimlad bod hwn yn faes arall lle gellid defnyddio ymchwilydd profiadol i atal twyll.

## 2. RÔL Y SWYDDOG ATAL TWYLL CORFFORAETHOL

2.1 Gyda golwg ar yr uchod, penderfynwyd y byddai'r awdurdod yn creu'r swydd SATC ac ar 1 Rhagfyr 2014, penodwyd Mr Hywel Ellis iddi. Mae'r swydd wedi ei lleoli yn yr Adain Archwilio Mewnol ac mae'r rôl wedi ei ehangu o fod yn un sy'n gwbl ymatebol i fod yn un rhagweithiol sy'n rhwystro twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf, gan hyrwyddo gwell diwylliant yn yr awdurdod o ran atal twyll. Fel y cam cyntaf yn y broses hon, mae'r SATC wedi bod yn cyfarfod gyda'r gwahanol Benaethiaid Gwasanaeth yn yr awdurdod i geisio sefydlu pa asesiadau risg twyll a gynhaliwyd yn eu gwasanaethau, pa bolisïau a sefydlwyd i roi sylw i unrhyw risgiau canfyddiadol a sut mae'r polisïau hyn yn cael eu gweithredu a dwyn i sylw staff. Gobeithir y gellir cwblhau adroddiad llawn gydag argymhellion yn y dyfodol agos.

Roedd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol yn bresennol yn y cyfarfod Penaethiaid gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015 i gyflwyno ei hun i'r Penaethiaid Gwasanaeth ac amlinellu ei rôl i'w cefnogi nhw a'r Cyngor i ddatblygu diwylliant atal dwyll cadarn.

2.2 Er mwyn hyrwyddo a gwella'r diwylliant atal twyll corfforaethol yn yr awdurdod, rhagwelir y gellir, gyda chydweithrediad swyddogion hyfforddi yn y gwasanaeth AD, drefnu cyrsiau atal twyll gyda darparwyr allanol. Cynhaliwyd ymarfer o'r fath ar gyfer staff Budd-daliadau a Refeniw a staff Tai yn  2013. Bydd yr SATC ar gael bob amser i gynorthwyo a chynghori unrhyw wasanaeth i hyrwyddo diwylliant atal twyll.

2.3 Mewn perthynas ag ymchwiliadau, mae'r SATC  yn rhoi sylw i gyfeiriadau gan yr adain budd-daliadau sy'n ymwneud â thwyll  CTRS. Mae'n cydgysylltu gyda staff budd-daliadau a'u rheolwyr ar sail reolaidd ac mae gweithdrefnau ar gyfer cyfeirio achosion o'r fath ac ymchwilio iddynt wedi eu sefydlu. Mae'r SATC yn ymgynghori ar hyn o bryd gyda'r adran dai ynghylch atal twyll tenantiaethau yn yr awdurdod. Fodd bynnag, mae hwn yn brosiect parhaus ac mae posibilrwydd y bydd cymdeithasau tai cymdeithasol yn dymuno cymryd rhan hefyd oherwydd mae modd iddynt hwythau hefyd ymchwilio i dwyll tenantiaethau fraud yn unol â'r Ddeddf Atal Twyll Tai Cymdeithasol 2013 (POSH) ond dim ond Awdurdodau Lleol fedr erlyn achosion o'r fath yn y llys.

2.4 The Bydd yr SATC hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am ymchwilio i droseddau eraill posib a gyfeirir ato gan unrhyw wasanaeth yn yr awdurdod, hynny yw, gall ymchwilio i unrhyw fater yr oedd y Tîm Archwilio Mewnol yn ymchwilio iddynt gynt, e.e. arian prydau ysgol sydd wedi mynd ar goll, anghysonderau mewn ffurflenni hawlio costau ac ati.